# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-06-09 Papur 2: 05 Mai 2009

### Deisebau Newydd

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir cryno am bob un o'r deisebau sydd i'w hystyried am y tro cyntaf gan y Pwyllgor ar 05 Mai 2009.

### (i) P-03-206 Nofio am ddim drwy'r flwyddyn i blant a phobl ifanc

### Geiriad y ddeiseb

Hoffai clwb ieuenctid yr Ammanford Junior Gateway ofyn a fyddech cystal â llofnodi'n deiseb a fydd yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyngor lleol.

I gael cyfleusterau hamdden am ddim drwy'r flwyddyn i blant a phobl ifanc.

### Cefndir

Dyma'r 150fed deiseb i'w chyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ers dechrau'r Trydydd Cynulliad ac fe'i derbyniwyd gan Aelodau'r Pwyllgor ym Mhwll Nofio Cenedlaethol Cymru yn Abertawe ar 26 Mawrth 2009.

Cynigwyd y ddeiseb gan Glwb Gateway Rhydaman a chasglwyd 562 o lofnodion.

### (ii) P-03-211 Cyfleusterau gofal i ddioddefwyr demensia?

### Geiriad y ddeiseb

Mae'r GMB - Undeb Cenedlaethol Prydain yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod darpariaeth briodol a digonol o ofal arbenigol ar gael ar gyfer pobl â demensia/henoed bregus eu meddwl a darpariaeth briodol a digonol o ganolfannau/cartrefi ar gael ledled Cymru

### Cefndir

Cynigwyd y ddeiseb hon gan Undeb y GMB a chasglwyd 13 o lofnodion.

### (iii) P-03-212 Lleihau traffig yn Llanelwy

### Geiriad y ddeiseb

Cytunaf for ar Lanelwy angen ffordd liniaru Gogledd/De.

### Cefndir

Cynigwyd y ddeiseb hon gan Gyngor Tref Dinas Llanelwy a chasglwyd dros 5,000 o lofnodion.

### (iv) P-03-213 Rhowch y gorau i'r cynllun difa moch daear

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi'r gorau i'w gynllun arfaethedig i ddifa moch daear fel rhan o'i raglen dileu TB mewn gwartheg. Mae hyn yn wyneb tystiolaeth wyddonol gadarn a adolygwyd gan gymheiriaid o'r Grŵp Gwyddonol Annibynnol. Mae'n nodi'n glir 'na all difa moch daear wneud unrhyw gyfraniad ystyrlon i reoli TB mewn gwartheg'

Ymunwch â'n hymgyrch - rhowch ddiwedd ar y cynllun difa!

### Cefndir

Cynigwyd y ddeiseb hon gan y Secret World Wildlife Rescue a chasglwyd 14,098 o lofnodion.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Ebrill 2009**